

2020 Rhif (Cy.)

2020 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A5
(Cilfannau rhwng Porthaethwy a
Chyffordd 8A yr A55 yng Ngharreg
Brân, Ynys Môn) (Gwahardd
Cerbydau Dros Dro) 2020

The A5 Trunk Road (Laybys
between Menai Bridge and
Junction 8A of the A55 at Carreg
Bran, Anglesey) (Temporary
Prohibition of Vehicles) Order
2020

Gwnaed 22 Mai 2020

Yn dod i rym 28 Mai 2020

Made 22 May 2020

Coming into force 28 May 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A5, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd tra bo mesurau cyfyngu COVID-19 mewn grym.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A5 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited whilst COVID-19 restriction measures are in place.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Cilfannau rhwng Porthaethwy a Chyffordd 8A yr A55 yng Ngharreg Brân, Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 28 Mai 2020.

1. The title of this Order is the A5 Trunk Road (Laybys between Menai Bridge and Junction 8A of the A55 at Carreg Bran, Anglesey) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2020 and it comes into force on 28 May 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys;

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services;

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y cyfnod cau” (“*closure period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 09:00 o’r gloch ar 28 Mai 2020 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw’r cilfannau ar gefnffordd yr A5 Llundain i Gaerdybi rhwng Porthaethwy a Chyffordd 8A yr A55 yng Ngharreg Brân yn Sir Ynys Môn fel a ganlyn;

- i. y gilfan sydd 340 o fetrau i’r dwyrain o Drosbont Carreg Brân yr A5;
- ii. y gilfan sydd 530 o fetrau i’r dwyrain o Drosbont Carreg Brân yr A5.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r gefnffordd.

Cymhwyso

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 22 Mai 2020

Nicci Hunter
Arweinydd Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5
(CILFANNAU RHWNG PORTHAETHWY A
CHYFFORDD 8A YR A55 YNG NGHARREG
BRÂN, YNYS MÔN) (GWAHARDD CERBYDAU
DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn tra bo mesurau cyfyngu COVID-19 mewn grym ar gefnffordd yr A5, neu gerllaw iddi, rhwng Porthaethwy a Chyffordd 8A yr A55 yng Ngharreg Brân, Ynys Môn.

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the laybys on the A5 London to Holyhead trunk road between Menai Bridge and Junction 8A of the A55 at Carreg Bran in the County of Anglesey as follows;

- i. the layby located 340 metres east of A5 Carreg Bran Overbridge;
- ii. the layby located 530 metres east of A5 Carreg Bran Overbridge;

“closure period” (“*y cyfnod cau*”) means the period commencing at 09:00 hours on the 28 May 2020 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibition

3. No person may, during the closure period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the 22 May 2020

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

**THE A5 TRUNK ROAD (LAYBYS BETWEEN
MENAI BRIDGE AND JUNCTION 8A OF THE
A55 AT CARREG BRAN, ANGLESEY)
(TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES)
ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary whilst COVID-19 restriction measures are in place on or near the A5 trunk road between Menai Bridge and Junction 8A of the A55 at Carreg Bran, Anglesey.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, rhag mynd i'r cilfannau rhwng Porthaethwy a Chyffordd 8A yr A55 yng Ngharreg Brân, Ynys Môn fel a ganlyn:

- i. y gilfan sydd 340 o fetrau i'r dwyrain o Drosbont Carreg Brân yr A5;
- ii. y gilfan sydd 530 o fetrau i'r dwyrain o Drosbont Carreg Brân yr A5.

Bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, mewn grym rhwng 09:00 o'r gloch ar 28 Mai 2020 ac 20:00 o'r gloch ar 6 Medi 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services, from entering the laybys between Menai Bridge and Junction 8A of the A55 at Carreg Bran, Anglesey as follows:

- i. the layby located 340 metres east of A5 Carreg Bran Overbridge;
- ii. the layby located 530 metres east of A5 Carreg Bran Overbridge.

The temporary prohibition, which will be signed accordingly, will be in force from 09:00 hours on 28 May 2020 until 20:00 hours on 6 September 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the proposed Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government